



Pa hyfforddiant y mae staff Mencap yn ei gael?

Rydyn ni'n gwybod pa mor bwysig yw hi i ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu o safon i'n cydweithwyr i sicrhau eu bod yn gallu darparu gofal proffesiynol rhagorol i'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi – dyna pam mae ein hyfforddiant cynefino yn cael ei weld fel un o'r rhaglenni gorau yn y sector ac wedi ennill nifer o wobrau.

Mae holl gydweithwyr cefnogi Mencap yn cyflawni hyfforddiant cynefino 12 wythnos cynhwysol sy'n cwrdd â holl ofynion y Tystysgrif Gofal. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys:

- Croeso i Mencap – Cyflwyniad i'r mudiad
- Diogelu
- Rhoi Meddyginiaeth yn Ddiogel
- Cadw gwylidwriaeth ar feddyginiaeth
- Symud a Thrin Pobl
- Gwylidwriaeth o Symud a Thrin Pobl
- Codi a chario sylfaenol
- Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng
- Diogelwch Tân
- Trafodaeth broffesiynol â'u rheolwr
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
- Mae cydweithwyr hefyd yn cwblhau Diwrnod Asesu Gwybodaeth ble bydd prawf yn cael ei roi ar eu dysgu, a'i adolygu a bydd cynllun datblygu parhaus yn cael ei osod

Yn ogystal â mynychu nifer o gyrsiau a addysgwyd, bydd cydweithwyr hefyd yn ymgymryd â hyfforddiant cynefino yn y gwasanaeth ei hun. Bydd hyn yn eu helpu i roi yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu'n barod ar waith a pharhau i ddysgu gan y bobl yn y gwasanaeth a'u cydweithwyr.

Dim ond y dechrau yw'r hyfforddiant cynefino. Gall staff Mencap Cymru hefyd gael mynediad at ddysgu sy'n cwrdd ag anghenion penodol y bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw. Megis:

- Awtistiaeth
- Iechyd Meddwl
- Rhywioldeb

- Hyfforddiant neilltuol sy'n gysylltiedig â iechyd i gwrdd ag anghenion unigolion sy'n cael eu cefnogi, e.e. epilepsi neu fwydo PEG

Rydyn ni'n sicrhau bod staff yn diweddarau eu hyfforddiant yn rheolaidd i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn cadw gyda'r oes.

Caiff rheolwyr Mencap hyfforddiant cynefino cynhwysfawr am chwe mis, sy'n cynnwys y cyrsiau uchod gydag elfennau ychwanegol ar gyfer rheolwyr.

Pryd bynnag y bydd rhywun yn gweithio yn Mencap a pha swydd bynnag maen nhw'n ymgymryd ag hi, bydd arnyn nhw angen ymgymryd â hyfforddiant gan ddibynnu ar eu rôl.

Os hoffech chi wybod rhagor am yr hyfforddiant a ddarperir i weithwyr Mencap, gofynnwch i'r rheolwyr sy'n goruchwyllo'r gwasanaeth am ragor o fanylion.

“Yn Mencap rydyn ni'n ymroi i annog a chroesawu partneriaeth ddysgu rhyngon ni, teuluoedd a ffrindiau i rannu'r arferion gorau a pharhau i ddatblygu ymhellach ein gwybodaeth, ein medrau a'n gwybodaeth arbenigol er mwyn peri'r ansawdd bywyd gorau i bob un o'r unigolion rydyn ni'n eu cefnogi.”